Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**


| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 08.04.24 |
| **Pwnc / Subject:** | **Datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16** |


**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad undydd ar datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16. Y rheswm am gynnal yr ymchwiliad yw'r penderfyniad a wnaed i ail-flaenoriaethu cyllid Llywodraeth Cymru yn ei Chyllideb ar gyfer 2024-25.

Cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad ar 14 Mawrth 2024, ac mi fydd yn cynnwys y canlynol:

- A fydd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol y gallu a'r adnoddau i gynnal eu rhaglen waith a'u darpariaeth bresennol;
- I ba raddau y bydd penderfyniad Llywodraeth Cymru i ailflaenoriaethu'r dyraniad ychwanegol o £3.5 miliwn a glustnodwyd ar gyfer y Coleg Cymraeg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gyfer 2024-25 yn effeithio ar waith datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16 yn y dyfodol a chefnogaeth Gymraeg i bobl ifanc;
- Archwilio sut y gallai'r penderfyniad effeithio ar nifer y bobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg, ac ystyried yr effaith bosibl ar bobl ifanc sy'n dewis ymgymryd â chyrsiau hyfforddi a chyrsiau ôl-16 yn llawn neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Deall sut y bydd penderfyniadau ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16 yn effeithio ar daflwybr a thargedau Cymraeg 2050.

Dymuna'r Pwyllgor eich gwahodd i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad hwn erbyn 09.00 ddydd Llun 8 Ebrill 2024.

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na **500 gair** – bydd unrhyw dystiolaeth y tu hwnt i'r terfyn geiriau hwn yn cael ei diystyru.

Os hoffech ragor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu.

**Ymateb Estyn**

Rydym yn craffu'n gyson ar waith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae gennym gylch arolygu penodol ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'i darparwyr Dysgu Cymraeg. Arolygom Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol am y tro cyntaf yn 2021 a chynhelir yr ail arolygiad yn ystod tymor yr haf eleni. Crybwyllwyd ein harolygiad o'r Ganolfan yn helaeth yn yr Adolygiad cyflym o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol 2021 oedd yn ei dro'n dylanwadu ar y Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg.

Rydym yn gweld tystiolaeth o waith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ystod arolygiadau a gwaith ymgysylltu â'r sectorau addysg bellach a phrentisiaethau. Yn ystod blwyddyn addysgol 2024-25 byddwn hefyd yn cynnal arolygiad thematig i adolygu cynlluniau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i'r sector addysg bellach a phrentisiaethau. Bydd yr adolygiad yn gwerthuso effeithiolrwydd y cynlluniau amrywiol i ddatblygu medrau iaith ac addysgeg staff yn y sectorau hyn; o'r sawl sydd yn rhugl ac yn hyderus eu medrau Cymraeg i'r sawl sydd yn cychwyn ar eu taith o ddechrau siarad a defnyddio'r Gymraeg.

Mae gan y ddau gorff rôl allweddol i sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael yn y sectorau ôl-16 a chefnogi cyflawni nodau strategol Cymraeg 2050.

Dylid nodi ein bod wedi argymell yn ein hadroddiad arolygu ar y Ganolfan Genedlaethol y dylai hi '*Rhannu methodoleg addysgu a chaffael ail iaith llwyddiannus gyda sectorau*

*perthnasol eraill i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg gweithredol erbyn 2050'.* Yn ystod arolygiad o ddarparwr Dysgu Cymraeg gwelwyd tystiolaeth o ddylanwad a phwysigrwydd cynyddol y sector Cymraeg i Oedolion. Nodwyd yn yr astudiaeth achos ganlynol: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu addysg.

Yn yr un adroddiad, ar dudalen 5, rydym yn dweud ' *Ar y cyfan, mae dysgwyr (sector Cymraeg i Oedolion) yn caffael y Gymraeg yn gyflymach ac yn fwy effeithiol na disgyblion ar y lefelau cyfatebol mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.'*
Mae gan y sector CiO swyddogaeth hynod bwysig o ran dylanwadu ar ein system addysg ar draws y rhychwant oedran i gynhyrchu siaradwyr gweithredol. Gwelir yn yr astudiaethau achos canlynol sut mae ethos a gweithredu'r sector yn llwyddo:
Troi dysgwyr yn ddefnyddwyr y Gymraeg.

Dulliau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n galluogi dysgwyr i gymathu â'r gymuned Gymraeg

Credwn bod angen ystyried yn ofalus sgil effaith unrhyw leihad yn yr ymyraethau ieithyddol a gwaith datblygu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar y Gymraeg ac ar gyfleoedd pobl ifainc i'w chaffael a'i defnyddio. Er nad ydym eto wedi arolygu'r Ganolfan eleni, rydym yn deall bod cryn waith cychwynnol wedi'i wneud i ddylanwadu ar, ac ehangu arfer effeithiol mewn sectorau eraill.

Rydym yn bryderus y gallai lleihad yn lefelau cyllid presennol danseilio'r cynnydd diweddar yn ehangder dylanwad y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Heb o leiaf gynnal lefelau cyllid presennol rydym yn bryderus na welir cynnydd ar raddfa ystyrlon yn y niferoedd sy'n siaradwyr Cymraeg gweithredol.